

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Defnyddio gweithwyr asiantaethau yn ystod streic:
Ymgynghoriad

Medi 2016

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Cyflogi gweithwyr asiantaethau yn ystod streic: hyrwyddo Partneriaeth Gymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad 16/09/01 <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Brendan Murtagh
Dyddiad:	Medi 2016
Arweinydd polisi:	Chris Hartwell
Manylion cyswllt:	wpc.mailbox@wales.gsi.gov.uk
Math o Raglen/Prosiect	
<input type="checkbox"/> Polisi <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen	
<input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad	
<input type="checkbox"/> Grant <input type="checkbox"/> Gwasanaethau	
<input type="checkbox"/> Newid busnes <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau	
<input type="checkbox"/> Seilwaith 	
<input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf 	
<input type="checkbox"/> TGCh 	
<input checked="" type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod) 	
<p>Ymgynghoriad, ac ymatebion i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar gynnig i ddiddymu'r rheoliad hwn, sef rheoliad 7 o Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth 2003 sy'n gwahardd busnesau cyflogaeth rhag darparu gweithwyr asiantaethau i gyflawni dyletswyddau a gyflawnir fel rheol gan gyflogai mewn sefydliad sy'n cymryd rhan mewn streic neu weithredu diwydiannol arall, neu i wneud gwaith cyflogai sy'n cyflawni dyletswyddau cyflogai sy'n cymryd rhan mewn streic neu weithredu diwydiannol arall.</p> <p>Bydd yr ymgynghoriad hwn yn holi barn amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau recriwtio, cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, undebau llafur a'r cyhoedd y mae gweithredu diwydiannol yn effeithio arnynt.</p> <p>Caiff yr ymatebion eu defnyddio i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf i'w cymryd.</p>	

Costau: Beth a ragwelir fydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?

Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn
<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r Gymraeg.

Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?

Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhedeg o'r wythnos yn cychwyn ar 12 Medi 2016 tan yr wythnos yn cychwyn ar 5 Rhagfyr 2016.

Caiff yr ymatebion eu defnyddio i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau nesaf i'w cymryd.

Mae'r Asesiadau hyn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ymwneud â'r ymgynghoriad yn unig. Os cymerir unrhyw gamau mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cynhelir asesiad arall o effaith hynny ar y Gymraeg.

CAM 1: CYNLLUNIO**Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?**

Mae'r ddogfen hon yn holi barn pobl am yr egwyddor o beidio â chaniatáu'r defnydd o staff asiantaethau dros dro i weithio yn lle cyflogeion gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n gweithredu'n ddiwydiannol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai defnyddio gweithwyr asiantaethau, yn y dull hwn, yn tanseilio'r hawl i streicio drwy leihau effaith gweithredu diwydiannol, ac yn effeithio ar y cydbwysedd rhwng cyflogwyr a chyflogeion sy'n sylfaenol i Bartneriaeth Gymdeithasol.

Caiff yr ymatebion eu defnyddio i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar gynnig i ddiddymu'r rheoliad sy'n ymwneud â defnyddio staff asiantaethau dros dro i weithio yn lle cyflogeion sy'n gweithredu'n ddiwydiannol. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cymryd unrhyw gamau hyd yn hyn yn sgil eu hymgyngoriad.

Ni ddylai camau a gymerir gan Lywodraeth y DU amharu ar ein gallu ni i fynd ati yn ein ffordd ein hunain i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn cynnig gwarchod Partneriaeth Gymdeithasol drwy sicrhau y bydd y sefyllfa bresennol yn parhau mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus Cymru, os bydd Llywodraeth y DU yn mynd ati i ddiddymu Rheoliad 7.

Mae hyn yn golygu peidio â chaniatáu i gyflogwyr mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ddefnyddio gweithwyr asiantaethau, yn yr amgylchiadau hyn, a byddai hyn yn dal pe bai Llywodraeth y DU yn caniatáu defnyddio busnesau recriwtio.

Os na fydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau o gwbl yn dilyn yr ymgynghoriad mewn perthynas â chyflogi staff asiantaethau dros dro yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol, yr hyn a benderfynir gan Lywodraeth y DU gaiff ei roi ar waith yng Nghymru.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?

Nid oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol rhwng yr ymgynghoriad a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – iaith fyw: iaith byw.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Byddai cynnig Llywodraeth Cymru yn cynnal y status quo mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Ni fyddai unrhyw effaith, felly, o gymharu â'r sefyllfa bresennol.

Fodd bynnag, os na fydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau o gwbl yn dilyn yr ymgynghoriad mewn perthynas â chyflogi staff asiantaethau dros dro yn ystod gweithredu diwydiannol, yr hyn a benderfynir ar lefel y DU gan Lywodraeth y DU gaiff ei roi ar waith yng

Nghymru.

Gallai camau a gymerir gan Lywodraeth y DU fod yn andwyol i'r amcan o wella gwasanaethau Cymraeg i ddinasyddion: os caniateir cyflogi staff asiantaethau dros dro i weithio yn lle cyflogaeth sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol, mae'n bosibl na fydd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn y Gymraeg ar gael pan gânt eu darparu gan staff dros dro.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Y prif rhanddeiliaid yw cyflogwyr awdurdodau cyhoeddus Cymru, undebau llafur ac asiantaethau cyflogaeth. Ni fydd y materion sy'n codi yn yr ymgynghoriad yn effeithio'n uniongyrchol ar anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Ar hyn o bryd, ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ymwneud â'r ymgynghoriad yn unig. Os cymerir unrhyw gamau mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cynhelir asesiad arall o effaith hynny ar y Gymraeg.

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

Caiff canlyniadau'r ymgynghoriad eu defnyddio i lywio'r gwaith parhaus o ddatblygu rhaglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Os gwneir cynigion ar gyfer deddfwriaeth bellach ar bwnc yr ymgynghoriad, cynhelir asesiad arall o effaith hynny ar y Gymraeg.

CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Amherthnasol

Effeithiau negyddol:

Amherthnasol

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y

defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?	
Amherthnasol	
Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:	
Amherthnasol	
Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad o effaith/asesiad o risg?	Cadarnhaol: <input type="checkbox"/> Negyddol: <input type="checkbox"/> Niwtral: <input checked="" type="checkbox"/> Anhysbys: <input type="checkbox"/>
Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad o Effaith	1. Dim newid sylweddol <input type="checkbox"/> 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau <input type="checkbox"/> 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru <input type="checkbox"/> 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno <input type="checkbox"/>
Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:	
Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:	
Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau rydych yn dymuno'u gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?	
CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO	
Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau rydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?	
Amherthnasol	
Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?	

Amherthnasol

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Amherthnasol

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

****Dileer fel y bo'n briodol:***

***Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleoedd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.**

Enw: Chris Hartwell

Adran: Y Grwp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Dyddiad(au): 09/09/2016

Llofnod: Chris Hartwell

Dyddiadau adolygu: 03/01/2017

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL

Rwyf yn fodlon bod yr Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy gydol oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.

Llofnodwyd: Paul Webb

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad 09/09/2016

Llofnodwyd: Paul Webb

(Uwch Berchennog Cyfrifol)

Dyddiad adolygu

03/01/2017